

Gwnaeth eich llais wahaniaeth

Yn gynharach eleni, fe wnaethon ni ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Cod Ymarfer newydd. Mae'r Cod hwn yn nodi sut y dylai cynghorau, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG wirio ansawdd gwasanaethau gofal, delio â phroblemau, a rheoli cau gwasanaethau.

Drwy ein hymgysylltiad â phobl a chymunedau, dywedoch wrthym y dylai gwasanaethau gofal wrando ar bobl, amddiffyn hawliau pobl a chefnogi pobl trwy newid.

Fe wnaethon ni basio hyn ymlaen yn ein hymateb a thynnu sylw at yr angen am:

- Cynhwysiant cryfach o leisiau pobl yn y cod ymarfer
- Rheolau cliriach ar gyfer pryd mae gwasanaethau'n cau
- Gwell cefnogaeth i bobl a theuluoedd pan fydd eu trefniadau gofal yn newid oherwydd datgomisiynu neu wasanaethau'n cau.
- Cydnabyddiaeth o hawliau'r iaith Gymraeg

Gwrandawodd Llywodraeth Cymru ar adborth pawb a gwnaeth newidiadau i'r [Cod drafft](#). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnwys profiadau byw ac adborth gan bobl a'r rhai sy'n agos atynt yn y ffordd y caiff ansawdd gofal ei asesu
- Diweddarau siartiau llif i ddangos sut mae pobl a theuluoedd yn rhan o benderfyniadau
- Cryfhau cyfathrebu a mynediad at gefnogaeth eiriolaeth yn ystod cau gwasanaeth
- Cydnabod yr effaith ar ofalwyr di-dâl a'r angen am barhad gofal
- Cydnabwyd hawliau'r iaith Gymraeg, ond ni chawsant eu hychwanegu'n uniongyrchol at y Cod. Teimlai Llywodraeth Cymru fod cyfreithiau a chanllawiau eraill eisoes yn cwmpasu'r rhain.

Mae hyn yn dangos sut mae eich llais yn helpu i lunio polisi cenedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod eich profiadau'n parhau i ddylanwadu ar benderfyniadau pwysig.